# BETH I'W WNEUD OS YW PLENTYN YN DANGOS SYMPTOMAU O COVID 19 MEWN LLEOLIAD PLANT

Ydi'r plentyn yn dangos un o symptomau Covid 19 ?

- Peswch cyson
- Tymheredd Uchel
- Colli gallu i flasu neu arogli neu newid yn eu gallu i flasu neu arogli

**Ydi**

- Cadwch y plentyn arwahan mewn ystafell arall neu o leiaf 2 fetr i ffwrdd oddi wrth eraill. Agorwch ffenestri er mwyn awyru'r ystafell.
- Dylai'r plentyn gael ei oruchwylio gan aelod o staff sy'n gwisgo menig tafladwy, ffedog a mwgwd wyneb os yw'n cael cysylltiad agos gyda'r plentyn. Os oes risg o dasgu hy, pesychu, poeri neu chwydu yna dylid gwisgo amddiffyniad i'r llygaid.
- Dylai'r holl arwynebau y mae'r plentyn wedi bod mewn cysylltiad â nhw gael eu glanhau a'u diheintio gan staff sy'n gwisgo PPE. Dylid cael gwared ar bob PPE ar wahân yn unol â mesurau rheoli heintiau.

Cysylltwch gyda rhiant /gofalwr er mwyn iddynt gasglu y plentyn yn syth. Bydd angen i'r plentyn a'r teulu hunan ynysu a threfnu prawf drwy ffonio 119 neu ar lein ar https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test

**Canlyniad Prawf Negatif**

Gall y plentyn ddychwelyd i'r lleoliad pan fyddant yn well, ac yn unol â pholisiau y lleoliad, a pholisi Atal a Rheoli Heintiau mewn Lleoliadau Gofal Plant.

**Canlyniad Prawf Positif/ Disgwyl am ganlyniad prawf.**

Bydd angen I'r plentyn a'i gartref hunan-ynysu am 10 diwrnod. Bydd gofyn i staff a phlant sy'n cael eu dosbarthu fel cysylltiadau hefyd hunan–ynysu.

'Nodyn ar gyfer plant Gwarchodwyr plant sy'n profi'n bositif, bydd angen i'r lleoliad gau ac aelodau'r cartref hunan ynysu am 10 diwrnod'

Hysbysu AGC o achos pendant, gan ddenfyddio AGC ar-lein. https://arlein.arolygiaethgofal.cymru

Bydd staff gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (POD) â'r lleoliad ac yn cynghori ar gamau pellach. Byddant yn gofyn am wybodaeth am gysylltiadau diweddar. Rhaid i leoliadau gadw'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl staff a phlant a gwneud yn glir y gellir darparu'r manylion hyn i staff olrhain cyswllt POD os oes angen. https://llyw.cymru/canllawiau-ar-brofi-ac-olrhain-cysylltiadau-i-leoliadau-gofal-plant-html

Os oes gan leoliad mwy na 2 achos wedi ei gadarnhau o fenw 14 diwrnod, dylent gysylltu gyda Tîm Aml Ddisgyblaethol POD

- DS. Dylai'r siart llif hon fod yn rhan o weithdrefn ysgrifenedig lawn ar gyfer amddiffyn staff a phlant yn y lleoliad.
- Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus. Gwiriwch y canllawiau yn rheolaidd https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html